**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027**

**Cystadleuaeth 96 – Unawd Cerdd Dant 19-25 oed**

# Cragen, Non Lewis
**(Ar draeth Tresaith)**

Y lli sydd yma'n fy llaw – a soned
dy synau yn alaw
i ras y bwced a rhaw,
cof eiliad ein cyfalaw.

Un llwyth pan oeddem yn llai – yn ysu
am oesoedd, ar siwrnai
at y môr i weld tro'r trai,
i fyw antur yn fintai.

A hawliem ein tywelion – yna aem
ag un naid dros wymon
yn eu dawns o don i don,
yn edrych am fôr-ladron.

I fôr a thraeth difyrrwch – i hwylio'r
heli, canfod harddwch
ogofáu, campau mewn cwch
oedd dyddiau ein dedwyddwch.

Ym Mehefin, a hi'n hwyrhau – un dydd
o doddi ar draethau,
amser i'r sêr agosáu
trwy rith ein hanturiaethau.

Yn ogof gudd i'r eigion – dy heulwen
sy' dal yn dy blygion,
a thaith ganol haf a'i thon,
yn gafael mewn atgofion.